

Brig y Goeden



YR
ANGHENFIL
YN Y
WARDROB

PAUL SHIPTON



**YR
ANGHENFIL
YN Y
WARDROB**

PAUL SHIPTON


Lluniau gan Chris Smedley



DRAKE

Ar Gyfer Edmygwyr Selog Angenfilod Yn Unig

*Does dim dwywaith amdani, meddyliais:
mae fy mrawd bach yn blentyn rhyfedd.*



Dyma pam. Roedd yn rhaid imi ysgrifennu stori ar gyfer gwaith cartref Cymraeg, ond allwn i ddim meddwl am yr un syniad. Felly, roedd Aled wedi rhoi un o'i storiâu fe imi. Efallai y byddai'n sbarduno syniad ar gyfer fy stori i, meddai fe.


Y trafferth yw, mae pob stori mae e'n ei hysgrifennu'n sôn am fampirod ac angenfilod a mymïod a phethau hyfryd fel yna.

Yn debyg i'r stori oedd gen i
yn fy nwylo nawr - ei
theitl oedd *Noson y
Corynnod
Cnawdysol*.



Roeddwn i wedi cyrraedd y darn lle
roedd Brad McSteel, yr arwr gensgwâr,
wedi ei ddal mewn atig gan gorryn enfawr
o blaned arall.

Ochneidiais a darllen yr hyn roedd Mrs
Lewys, athrawes Aled, wedi'i ysgrifennu
ar y diwedd:



Druan o Mrs Lewys! Dychmygwch
orfod darllen yr holl storïau gwirion hyn
gan fy mrawd sy'n dwlu ar angenfilod!
Dim rhyfedd eu bod nhw'n dweud bod
swydd athrawon yn un galed.


Ar hynny daeth cnoc ar fy wal. Daeth hi o ystafell Aled a chafodd ei dilyn gan waedd fain.



Taflais y stori i lawr ar fy ngwely a chodi. Roedd gen i syniad da am beth fyddai hwn.



Yn sicr ddigon, roedd Aled yn eistedd i fyny yn ei wely. Roedd e wedi tynnu'r carthenni i fyny at ei ên. Roedd y golau wedi'i ddiffodd, ond roedd y golau pen grisiau ymlaen a gallwn weld yr ystafell yn eitha da. Roedd posteri angenfilod Aled yn edrych yn arswydus yn y gwyll.



“Beth sydd?” gofynnais, gan wybod eisoes beth fyddai'r ateb.

Cododd Aled law grynedig a phwyntio tuag at y wardrob.




Roedd ei lais mor grynedig â'i law.



Nodiodd. Ychydig ddyddiau yn ôl, roedd Aled wedi gweld ffilm am anghenfil oedd yn sleifio i mewn i ystafelloedd gwely plant. Roedd e'n llechu yn y wardrob ac yn aros tan ganol nos i ymosod. Yn sicr ddigon, roedd Aled nawr yn dychmygu y gallai glywed synau rhyfedd yn ei ystafell yn y nos.

Ar y nosweithiau pan oedd Mam gartre, byddai Aled yn gweiddi amdani hi pan oedd e'n ofnus. Ond ar nosweithiau fel hyn, pan oedd Mam yn gweithio'r shifft nos yn yr ysbyty - nyrs yw hi - roedd Aled fel arfer yn galw amdana i.

(Roedd Dad i mewn, ond roedd Aled wedi ffeindio nad oedd e'n cydymdeimlo llawer. Roedd Dad jest yn dweud bod angenfilod Aled yn 'sothach' ac yn mynd 'nôl i wylïo'r teledu.)



Brasgamais draw at y wardrob a thynnu'r drws ar agor. Ebychais i.

Beth yw e?

Mae'r wardrob yma'n llanast!
Wyt ti ddim yn gallu hongian
dy ddillad hyd yn oed?



Gwenais arno. Fel y dywedais i wrthoch chi, mae fy mrawd bach braidd yn rhyfedd. Hyd yn oed wedyn, allwch chi ddim llai na themlo'n flin drosto. Mae ganddo ddychymyg gorfywiog, dyna'r cyfan.

“Gwranda, Aled,” dywedais i wrtho.
“Does *dim byd* yn cuddio yn y wardrob.
Hen dŷ yw hwn, a mewn hen dai mae
llawer o synau. Estyll yn gwichian a
phethau fel yna. Dyna’r cyfan.”

Eisteddais ar ei wely.

Pam na wnei di gadw’r golau
ymlaen a darllen am ychydig?
Mae hynny bob amser yn fy
helpu i i gysgu.



Nodiodd Aled a chydio mewn llyfr o’i
silffoedd.

“Beth am hwn?” meddai fe. “Cefais i e
mewn arwerthiant cist car gyda Mam y
prynhawn yma.”

Chwifiodd y llyfr yn falch.

Dim ond 50c oedd e!



Ar yr olwg gyntaf meddyliais ei fod wedi talu crocbris. Edrychai'r llyfr fel petai ar fin syrthio'n ddarnau. Yna cefais i gip ar y teitl: LLYFR MAWR ANGENFILOD.



Doedd dim llun ar y clawr, dim ond sticer a ddywedai:

Rhybudd. Ar gyfer edmygwyr selog angenfilod yn unig.

“Nid dyna’r math o lyfr oedd gen i
mewn golwg mewn gwirionedd,”
dywedais i. “Oes unrhyw beth arall
gennyt ti?”




Syllodd Aled arna i’n hurt. Edrychais
ar ei silff oedd yn llawn llyfrau arswyd a
ffuglen wyddonol a dywedais wrthyf fy
hunan i beidio â gofyn cwestiynau
gwirion.



Y Wardrob yn Agor

'Nôl yn fy ystafell fy hunan, pendronais pam fod cymaint o blant yn dwlu cymaint ar angenfilod. Wedi'r cyfan, roedd Aled wedi gwirioni arnyn nhw, ond nid fe oedd yr unig un oedd wedi gwirioni. Roedd llawer o'i ffrindiau yn rhannu ei ddiddordeb rhyfedd mewn llyfrau a chomics iasoer. A betia i eu bod nhw, fel Aled, yn dychryn eu hunain dros ddim byd yn y pen draw.



Doeddwn i ddim yn ei ddeall e. Pam gwirioni ar rywbeth sydd yn codi ofn arnoch chi?

Onid oedd digon o bethau go iawn yn y byd i'ch dychryn? Fel petaech chi'n cael ploryn ar waelod eich trwyn. Neu a allech orffen eich gwaith cartref mewn pryd.



A sôn am hynny... codais bin ysgrifennu ac aros i syniad ar gyfer stori wych lamu i 'mhen.

Roeddwn i'n dal i aros a rhythu ar y papur pan ddaeth y sŵn eto.



Y tro hwn roedd Aled yn wyn gan ofn. Rhythodd arna i â'i lygaid ar agor led y pen.

Beth sy'n bod y tro yma? All e ddim bod yn synau o'r wardrob eto?



Roeddwn i'n bigog erbyn hyn. Roedd hi'n mynd yn hwyr a doeddwn i ddim wedi *dechrau* ar fy ngwaith cartref hyd yn oed.

Siglodd Aled ei ben yn nerfus a gwthio'r llyfr tuag ata i. Sbeciais i lawr ar y tudalen agored.

YR ANGHENFIL YN Y WARDROB

Un o'r angenfilod gwaetha oll. Daw'r bwystfil anataliadwy hwn allan i fwydo yn y nos yn unig. Mae'n well ganddo fwyta pobl ifanc er bwythith e oedolion os nad oes dim arall ar gael.

Gall weld yn y tywyllwch, ac

Roeddwn i wedi darllen digon.

Wel, does dim rhyfedd dy fod ti'n cael
ofn os mai dyna'r math o beth rwyt ti'n
ei ddarllen!

Na, dwyt ti ddim yn deall.



Pwyntiodd e at y llun yn y llyfr.
Anghenfil ffaidd oedd e â llond ceg o
ddannedd miniog.



*Mae angen deintydd da ar yr anghenfil
yna, meddyliais.*

Ond roedd fel petai gwir ofn ar Aled.

Rhythodd arna i. “Y llun yna... Fy anghenfil *i* yw e. Yr un dwi’n gallu ei glywed yn fy wardrob. Yr un sydd yn fy hunllefau... dwi i ddim yn deall sut, ond mae e yno yn y llyfr.”



Gorfodais fy hunan i beidio â gwenu. Gallwn weld ei fod yn credu’r sothach yma a doeddwn i ddim eisiau brifo ei deimladau. (Dwi’n eitha da o gofio ’mod i’n chwaer hŷn.)

Felly meddyliais yn ofalus am beth i’w ddweud. Roeddwn i’n dal i feddwl pan glywais y sŵn...

Dim ond sŵn crafu tawel i ddechrau.
Roedd e'n dod o rywle yn yr ystafell, ar
bwys pen y gwely.




Roedd e'n dod o'r wardrob.

Aeth ias sydyn trwof fi. Beth petai Aled yn dweud y gwir? Beth petai yna...? Taflais y syniad o'm meddwl a dweud wrthyf fi fy hunan i beidio â bod mor wirion.




Ac yna daeth y sŵn eto, yn uwch y tro hwn. Parlyswyd Aled gan arswyd. Roedd fy meddwl yn rasio. Efallai mai llygoden oedd hi, oedd wedi crwydro i mewn i'r tŷ? Neu efallai bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r pibelli dŵr, neu -


Dechreuodd drws y wardrob wichian ar agor yn araf.



Ac yna dechreuodd rhywbeth ddod
allan ohono fe.



Fel petai mewn breuddwyd, gwyliais
wrth i grafanc hir, grwm, FINIOG
ymddangos yn araf o gwmpas drws y
wardrob.






Dihangodd crawc o arswyd o enau
Aled a sbardunwyd fy meddwl i weithio.
Cydiais yn fy mrawd wrth ei arddwrn a'i
gipio o'r gwely.



Dyna, roedd yn ymddangos, y peth
mwy synhwyrol i'w wneud.

Ymosodiad!

Arhoson ni ddim i weld gweddill y peth oedd yn y wardrob. Doedd dim angen - roedd gweld y grafanc arswydus wedi bod yn fwy na digon. Rhedon ni am ein bywydau a rhuthro i lawr y grisiau.



Roedd Aled yn dal i gydio yn ei lyfr. Roedd e'n cydio ynddo fel petai e'n mynd i'w achub e.


Doedd gen i ddim cynllun, doedd gen i'r un syniad heblaw am Fynd Allan O Fanna Cyn Gynted Ag Y Byddai Modd!

Taflais ddrws yr ystafell fyw ar agor er mwyn 'nôl Dad. Roedd y teledu'n dal ymlaen - am ryw reswm, hyd yn oed yn fy nychryn, sylwais mai fy hoff raglen i oedd hi - ond doedd Dad ddim yno.



A doedd yr ystafell ddim yn wag...

Roedd cawr o gorryn blewog yn siglo i
fyny ac i lawr o flaen y sofffa.



Wrth ddweud *cawr* o gorryn, dwi ddim
yn meddwl y math welech chi yn y bath.
Dwi'n meddwl CAWR O GORRYN.
Anferth, aruthrol, cawraidd. Roedd e mor
fawr nes fod ei lygaid gloywddu ar yr un
lefel â'm llygaid i.

Clywais sgrech. Cymerodd eiliad imi
sylweddoli iddi ddod o'm genau i.

Rhedais i ac Aled 'nôl mewn i'r
cyntedd. Daeth gwaedd ffyrnig ar ein hôl
ni o'r ystafell fyw. Y corryn oedd e!



Doedd dim amser gan f'ymennydd i
bendroni pam fod corryn enfawr yn ein
tŷ. Roedd e'n rhy brysur yn ceisio fy
nghadw'n fyw!

Petaen ni jest yn gallu cyrraedd drws y
ffrynt...

Llamodd corryn enfawr arall o'n blaen.
Dechreuodd set arall o wyth coes flewog
sleifio tuag atom ni. Roedden ni wedi ein
dal!

Heb feddwl, cydiais yn un o ffyn golff
Dad o'r cyntedd. Daliais hi o fy mlaen fel
cleddyf. Stopiodd y corryn ddim, ond
arafodd e.




Yna gollyngodd sŵn hisian erchyll a rhuthro tuag atom. Ymatebais yn gyflym (Dwi'n chwaraewr rownderi gwych-dwi'n ymateb yn union). Trawais y creadur ar ei ben. Llamodd 'nôl mewn poen.



Roedd y corr yn cyntaf wedi ein dilyn ni i mewn i'r cyntedd.




Prociais ato a chamodd hwn 'nôl
hefyd. Prociais eto, ond cydiodd e yn y
ffon â'i safnau. Roedd e'n gryf a bu bron
iddo lwyddo i dynnu'r ffon oddi wrthyf.




Pwniodd fy nghalon mewn arswyd,
ond ar ôl ychydig eiliadau hir tynnais y
ffon yn rhydd.

Aled , mae'n rhaid inni ddod o hyd i ffordd
allan! Alla i ddim cadw'r ddau ohonyn nhw
draw am
yn hir.



Ond doedd fy mrawd ddim yn
gwrando. Roedd e'n palu'n wyllt yn y gist
ddroriau y tu ôl iddo. O'r diwedd,
tynnodd allan yr hyn roedd yn chwilio
amdano- gwn dŵr!




Â dwylo crynedig llanwodd y gwn â
dŵr o'r pot blodau ar ben y gist. Beth ar
wyneb y ddaear roedd e'n ei wneud,
pendronais wrth bwnio'r corynnod
unwaith yn rhagor. Roedd fy mraich yn
dechrau brifo.

Daliodd Aled y gwn led braich o'i flaen a'i anelu'n syth at un o'r corynnod. Ar y funud honno roedd fy mrawd bach tenau'n edrych yn debyg i un o arwyr y comics roedd e bob amser yn eu darllen.




Chwistrellodd e ddŵr at y corryn. Cyn gynted ag y bwrodd y dŵr e, gollyngodd y creadur sgrech o artaith.






Roedd sŵn hisian a dechreuodd cymylau o fwg drewllyd godi'n donnau o'r corryn. Llanwyd y cyntedd ag arogl ofnadwy cig wedi'i losgi.

O fewn eiliadau roedd y creadur wedi toddi'n bentwr o lwch. Edrychai fel paced o gawl powdr roedd rhywun wedi'i sarnu ar y llawr.



Wel, beth arall allwn i ei ddweud?

Roedd y corryn arall yn siglo'n nerfus
ac yn camu 'nôl i lawr y cyntedd.
Camodd Aled ymlaen. Synhwyrais hyder
newydd yn fy mrawd wrth iddo godi ei
wn dŵr.



Crechwenodd wrth iddo dynnu clicied
y gwn a... dim byd. Dilynais llygaid llawn
arswyd Aled i lawr at y gwn dŵr yn ei law
- roedd e'n wag!



Ond sut? Gallen ni glywed *clwmp*,
clwmp traed ar y grisiau. Rhywsut doedd
hyn ddim yn swnio'n debyg i goesau'r
corynnod yn sgrialu. Roedd y camau
yma'n swnio'n drymach, yn fwy
bygythiol. Mae'n rhaid mai'r anghenfil o'r
wardrob oedd e!



Roedden ni wedi ein dal - y corryn i un
cyfeiriad, yr anghenfil i'r llall. Doedd dim
ond un lle i fynd.




Yr Anghenfil yn Taro

Roedd llyfr Aled yn gorwedd nesa at y gist ddroriau. Roedd e wedi ei ollwng pan oedd e'n chwilio am y gwn dŵr. Dwi ddim yn gwybod pam, ond dywedodd rhywbeth wrthyf i i'w godi.



“Dere ymlaen!” sgrechiodd Aled.
Rasiodd Aled a finnau am y seler.

Tynnnon ni ddrws y seler ar agor. Cyn gynted ag roedden ni y tu mewn, tsieciais y clo. Yna tsieciais eto, i fod yn siwr.




Rhedon ni i lawr y grisiau.

Yng ngolau gwan unig fylb y seler, edrychodd Aled a finnau ar ein gilydd. Roedd y naill ohonom yn gwybod beth oedd ym meddwl y llall: roedden ni wedi ein dal i lawr yna. Dim ond un ffordd i mewn ac un ffordd allan.



Roedd fy nghalon yn curo'n wyllt.
Gorfodais fy hun i dynnu anadl dwfn, ac
yna chwiliais am rywbeth arall i'w
ddefnyddio fel arf.



Roedd yno hen feic ymarfer doedd neb
byth yn ei ddefnyddio a bocsys o'n hen
deganau a dillad oedd wedi mynd yn rhy
fach inni. Dim byd y gallen ni ei
ddefnyddio. Cydiais yn dynnach yn y
ffon golff.

Torrodd cwestiwn trwy'r panig yn fy meddwl.

Aros funud. Sut roeddet ti'n gwybod y byddai dŵr yn eu lladd?



Daeth golwg o arswyd ac anghrediniaeth dros wyneb Aled. Meddai'n araf, "Roeddwn i'n gwybod achos dyna a ddigwyddodd yn y stori a ysgrifennais i, *Noson y Corynnod Cnawdysol.*"



Wrth gwrs, stori wirion Aled am gorynnod enfawr o'r gofod! Ond sut?

Dyna pryd y cofiais i yr hyn roedd Aled wedi ei ddweud am ei lyfr. Roedd ei anghenfil e - yr anghenfil yn y wardrob - wedi bod yn y llyfr hwnnw. Allai'r corynnod fod ynddo hefyd? Bodiais trwy'r llyfr rhacsiog yn fy nwylo.



Caeais y llyfr yn glep fel petai un o'r corynnod yn gallu neidio oddi ar y dudalen.



Yna edrychais ar y clawr. Roedd y label gludiog wedi dechrau dod yn rhydd, felly tynnais i fe i ffwrdd. Daeth teitl llawn y llyfr i'r golwg. Ebychodd Aled a finnau wrth inni ei ddarllen: LLYFR MAWR ANGENFILOD ALED MCGUIRE.



Sut gallai enw fy mrawd fod ar y clawr? Rhedodd ias i fyny ac i lawr fy meingefn.

Beth sy'n digwydd? Ble ddywedaist ti y cest ti'r llyfr yma?



Rhithodd Aled arna i. “Dywedais i wrthot ti - mewn arwerthiant cist car,” meddai fe. “Dywedodd y dyn a werthodd y llyfr imi ei fod yn llyfr perffaith ar gyfer unrhyw blentyn sy'n ymddiddori mewn angenfilod. Ar y cychwyn cyntaf gwrthodais ei brynu, ond roedd e'n dal i ostwng y pris.”



Roeddwn i mewn penbleth. Roedd y llyfr hwn yn llawn angenfilod o ddychymyg rhyfedd Aled. A rywsut roedd yn dod â nhw'n fyw. Ond PAM?

Ches i ddim cyfle i bendroni'n hir dros y cwestiwn. Trawodd rhywbeth newydd yn erbyn drws y seler â chlep drom.



BWM! Yna eto, ac eto.


Y corryn arall?



Siglais fy mhen. Roedd hwn yn rhywbeth mwy...



Mae'n rhaid mai'r peth o wardrob Aled oedd e.



Gyda'r glep nesa daeth sŵn gwahanol -
crensh pren yn torri'n ysgyrion. Roedd y
drws yn torri! Roedd yr anghenfil o'r
wardrob ar fin torri i mewn!



Anataliadwy!

Beth allen ni ei wneud? Gwasgwyd fy nghalon gan banig.

Clywsom sŵn ofnadwy pren yn torri'n deilchion a cholfachau'n plygu. Roedd dyddiau'r drws ar ben. Dihangodd sgrech o enau Aled. Edrychais i fyny a gweld ffurf enfawr yn llanw'r drws agored.



Cefais gip ar drwyn mor hir â thrwyn crocodeil. Fflachiodd dannedd marwol - llawer ohonyn nhw. Estynnodd llaw grafangog am swits y golau.

Yna diffoddwyd y golau a thaflyd
popeth i dywyllwch. Gallwn i deimlo
Aled yn gwasgu'n nes ata i.



Atseiniodd sŵn traed trwm wrth i'r
anghenfil ddod yn araf i lawr y grisiau.
Clep.



Dilynwyd e gan sŵn crafu wrth i draed
crafangog lusgo ar hyd y grisiau concrit.
Yna eto - *clep, sgrepian.*



Roedd fy meddwl yn rasio. Meddylia!
Beth oedd yn y llyfr am y peth hwn?
Daeth y gair 'nôl ata i fel cawod o ddŵr
oer - *anataliadwy*. Beth bynnag fyddech
chi'n ei wneud, byddai'r anghenfil yn eich
cael yn y diwedd.




Rhywsut llyfr Aled oedd allwedd y
cyfan. Dechreuais rwygo'r tudalennau o'r
llyfr yn wyllt a'u crebachu.



Wyddwn i ddim a fyddai'n gweithio,
ond doedd gen i ddim syniadau eraill.




Roedd y bwystfil bron â chyrraedd
gwaelod y grisiau.



Yn y tywyllwch roedd hi bron yn
amhosibl gweld pa dudalen roeddwn i'n ei
rhwygo. Dalais ymlaen i rwygo. Yn hwyr
neu'n hwyrach byddwn i'n cyrraedd y
dudalen gyda'r anghenfil yn y wardrob.
Roedd yn RHAID imi!

Atseiniodd chwerthiniad meddal wrth
i'r anghenfil gyrraedd llawr y seler.

Roedd hi ar ben arnom ni! Cydiodd
Aled ynof i'n dynnach. Daliais i rwygo'r
llyfr a thaflu'r tudalennau i ffwrdd.



Hyd yn oed yn y tywyllwch gallwn
weld siâp sylweddol yn ymrithio o'n
blaen. Disgleiriai pâr o lygaid melyn yn
fygythiol yn y düwch.




Yna - *rhap!* - tynnais un dudalen arall a daeth fflach sydyn o olau i'r seler.



Amgylchynwyd yr anghenfil gan chwyrladau o olau. Gollyngodd ochenaid isel, ddryslyd. Yna gwywodd yr anghenfil a diflannu. Yn fuan y cyfan oedd ar ôl oedd patrwm o sêr yn dawnsio yn yr awyr.

Ac yna dim byd.




Roedd llaw Aled yn dal i gydio yn fy mraich. Clywais ei lais yn y tywyllwch.



Cyn inni wneud dim arall, rhwygais weddill y llyfr. Pa rym bynnag oedd ganddo, roeddwn i am fod yn hollol siwr fod pob darn ohono wedi mynd.

Yna'n nerfus ymlwybron ni i fyny'r grisiau. Prin roedden ni'n meiddio credu bod y cyfan drosodd.





Roeddwn i'n hanner disgwyl i rywbeth neidio allan arna i. Wnaeth dim byd. Roedd y lle mewn llanast ar ôl ein brwydr gyda'r corynnod, ond roedd y tŷ'n dawel.

Daethom o hyd i Dad yn gorwedd yn y gegin. Roedd e'n cysgu a gallwn i weld sypynnau o edau sidan o'i gwmpas. Dyfalais fod un o'r corynnod wedi'i lapio a'i lusgo yno.



Ysmiciodd ei lygaid ar agor wrth inni ei ysgwyd. Edrychai'n llwyd ond doedd e ddim wedi'i frifo.



Dechreuais ateb, ond yna stopiais fy hun. Ble i ddechrau? Trois at fy mrawd oedd â golwg hurt arno.




Pos y Llyfrau



Ganol nos oedd hi ond roedd y goleuadau'n dal i ddisgleirio yng Nghwmni Llyfrau Prentwyll.

Yn ei swyddfa rhoddodd Mr Prentwyll y ffôn 'nôl yn ei grud yn ofalus. Doedd y newyddion ddim yn dda. Roedd y llyfr a werthodd i'r bachgen yna, Aled McGuire, wedi'i ddinistrio.






Safodd Prentywyll ac edrych allan i'r nos. Yn araf estynnodd a phlycio'r mwgwd dynol oddi ar ei wyneb. Teimlai hynny'n llawer gwell. Er mwyn cyflawni pethau, weithiau roedd angen edrych fel bod dynol. Ond roedd hi bob amser yn teimlo'n dda i dynnu'r mwgwd.

O, wel. Ennill weithiau,
colli weithiau.



Doedd e ddim wedi ennill heno - ond roedd e'n gwybod y byddai cyfleoedd eraill.

Ac roedd pethau'n mynd yn eitha da. Yn ôl yn yr hen ddyddiau roedd e wedi gorfod ymweld â phlant fesul un. Roedd e wedi bod yn hwyl ond nid dyna'r ffordd orau i anghenfil gyflawni ei ddyletswydd o ledu arswyd ar hyd y wlad.



Mae'n rhaid i angenfilod hyd yn oed symud gyda'r oes. Felly roedd Prentwyll wedi dyfeisio'r syniad newydd yma o ddefnyddio'r llyfrau. Nawr, gallai e weithio ei ddewiniaeth ddu yn gynt o lawer. Gallai ddychryn cannoedd o blant ar yr un pryd.

Daeth cnoc petrus wrth y drws. Daeth un o'i weithwyr i mewn i'r swyddfa.



Gwenodd Prentwyll.

Da iawn. Nawr dim ond un peth mae'n rhaid inni ei benderfynuwau pwy fyddwn ni'n eu defnyddio y tro yma?

Am yr awdur

Pan oeddwn i'n tyfu i fyny ym Manceinion, roeddwn i wastad am fod yn ofodwr, pêl-droediwr neu (os na fyddai'r rhain yn bosib) efallai'n seren roc. Felly daeth yn dipyn o sioc pan ddes yn athro yn gynta ac wedyn yn olygydd llyfrau addysgol.



Dwi wedi byw yng Nghaergrawnt, Aylesbury, Rhydychen ac Istanbul. Dwi'n dal i grwydro a nawr dwi'n byw yn Chicago gyda fy ngwraig a'r teulu.

Flynyddoedd maith yn ôl, llechai anghenfil ar y landin y tu allan i fy ystafell wely. Ddaliodd e fyth mohono i ac weithiau dwi'n ceisio dyfalu i ble yr aeth.

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:

Pecyn A

Dial Capten Gwaed gan Paul Shipton
Yr Anghenfil yn y Wardrob gan Paul Shipton
Dan Ddu gan Susan Gates
Ar Drywydd Stori gan Roger Stevens
Esgyrn! gan Paul Shipton
Y Gôli o 'Nulle gan Alan MacDonald
Y Siarc Sleï, Seinlyd gan Tessa Krailing

Pecyn B

Dwi Eisio, Dwi Eisio gan Paul Shipton
Y Ffisig Ffrwydrol gan Alan MacDonald
Cyfrinach y Gôli gan Paul Shipton
Yn Gynt Na'r Gwyn! gan Paul Shipton
Aros am Aur gan Susan Gates
Y Bwci Bo! gan Michaela Morgan
Sgwad Swigyn gan Paul Shipton

YR
ANGHENFIL
YN Y
WARDROB

Eisteddodd Aled i fyny yn y gwely.
“Beth sy’n bod nawr?” holodd
ei chwaer fawr Meinir.

Roedd Aled yn dwlu ar angenfilod.
Roedd e bob amser yn ei ddychryn ei
hunan â storïau iasoer.
Ond roedd heno’n wahanol.
Pwyntiodd Aled at droed
ei wely.
“Mae sŵn,” meddai’n grynedig, “ac
mae’n dod o’r wardrob...”



Brig y Goed



Coeden
Ddarllen
Rhydycher

Cam 13

ISBN 0-86174-502-7



ISBN 0-86174-502-7

DRAKE

9 780861 745029